# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 12 Ionawr 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

## 314(v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.

Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.

**Mae'r Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.**

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd (yn rhinwedd ei gyfrifoldebau fel "swyddog cyfreithiol")

(30 munud)

Gweld y Cwestiynau

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(15 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Strategaeth frechu COVID-19

(45 munud)

## 5 Dadl ar Ddatganiad: Cyllideb Ddrafft 2021-2022

(60 munud)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NDM7538** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7534, NDM7535 ac NDM7537 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 6-9 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(30 munud)

## 6 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020

**NDM7536** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020

**NDM7534** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

**NDM7537** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020

**NDM7535** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, De Affrica) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

(15 munud)

**NDM7533** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Rhagfyr 2020.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

(5 munud)

**NDM7540** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i NDM7541 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 12 Ionawr 2021.

## 11 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Masnach

(30 munud)

**NDM7541** Jeremy Miles (Castell-nedd)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Masnach, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Ebrill 2020, 4 Tachwedd 2020, a 11 Ionawr 2021 yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Masnach y DU (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (rhif 2)

## 12 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol

(15 munud)

**NDM7542** Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Gorffennaf a 2 Rhagfyr 2020, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

## 13 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 13 Ionawr 2021

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 07/01/2021 i'w hateb ar 12/01/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

1

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

OQ56088

**(e)**

Pa werthusiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19?

2

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

OQ56105

**(e)**

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau buddsoddiad mewn cynhyrchu batris ar gyfer cerbydau trydan yng Nghymru?

3

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

OQ56121

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gwahaniaeth rhwng y ffigurau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r rhai a ddarparerir yn adroddiadau wythnosol Iechyd Cyhoeddus Lloegr ar hysbysiadau am glefydau heintus mewn perthynas â COVID-19?

4

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56123

**(e)**



Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU

ynghylch cynlluniau i dorri credyd cynhwysol o fis Ebrill ymlaen?

5

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

OQ56119

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael â hiliaeth mewn chwaraeon?

6

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ56102

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y strategaeth ar gyfer cyflwyno brechlyn COVID-19?

7

**Dawn Bowden** *Merthyr Tudful a Rhymni*

OQ56110

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau diweddar gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid ychwanegol i Gymru?

8

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

OQ56122

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi a chyflwyno'r brechlyn COVID-19 yng Ngorllewin De Cymru?

9

**Leanne Wood** *Rhondda*

OQ56094

**(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y ddarpariaeth addysg ar gyfer y plant

a'r bobl ifanc mwyaf difreintiedig?

10

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

OQ56077

**(e)**

Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau hunanarlwyo yn ystod y pandemig?

11

**David Melding** *Canol De Cymru*

OQ56083

**(e)**

Pa gynlluniau sydd ar waith i roi cyngor gyrfa ychwanegol i raddedigion Cymru mewn ymateb i'r crebachu yn y farchnad lafur a achoswyd gan bandemig COVID-19?

12

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

OQ56076

**(e)**

Faint o staff a disgyblion ysgolion meithrin a chynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr sydd wedi cael canlyniad positif mewn prawf COVID-19 ers 14 Rhagfyr 2020?

## CWNSLER CYFFREDINOL

1

**Mandy Jones** *Gogledd Cymru*

OQ56080

**(e)**

Pa asesiad y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i wneud o effaith COVID-19 a'r cyfyngiadau symud cysylltiedig ar fynediad at gyfiawnder yng Ngogledd Cymru?

2

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

OQ56084

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau cyfreithiol a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru yn erbyn Llywodraeth y DU mewn perthynas â Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020?

3

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ56089

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i herio Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 yn y Goruchaf Lys?

4

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56095

**(e)**

A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch achos ymgyrch Anghyfiawnder Pensiwn Menywod yn Erbyn y Wladwriaeth ar gyfer menywod o'r 1950au y gwrthodwyd eu pensiynau iddynt?

5

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ56093

**(e)**

Pa gyngor cyfreithiol y mae'r Cwnsler Cyffredinol wedi'i roi i Lywodraeth Cymru ynghylch cyfreithlondeb rhoi llety i geiswyr lloches ym maes milwrol Penalun ger Dinbych-y-pysgod?